**Geirfa Allweddol**

**Ad Hoc** - wedi'i greu neu ei wneud at ddiben penodol yn ôl yr angen.
**Adnewyddadwy** - adnodd naturiol neu ffynhonnell ynni nad yw'n cael ei disbyddu gan ddefnydd, e.e. dŵr, gwynt neu ynni haul.
**Ailgylchu** - ail ddefnyddio pethau drwy ail brosesu; e.e. gwydr, plastig, papur ac ati.
**Amgylchedd** - y byd o'n cwmpas.
**Bioamrywiaeth** - yr amrywiaeth o fywyd planhigion ac anifeiliaid yn y byd neu mewn cynefin penodol, y mae lefel uchel ohoni fel arfer yn cael ei hystyried yn bwysig ac yn ddymunol.
**Bregus** - (unigolyn) sydd angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.
**Carbon deuocsid** - nwy sy'n cael ei gynhyrchu gan y broses o losgi, dyma sy'n cael ei gyfri'n bennaf gyfrifol am gynhesu'r byd a chreu newid yn yr hinsawdd.
**Cristnogion Efengylaidd** - Cristnogion ffwndamentalaidd sy’n Dilyn eu crefydd yn llythrennol.
**Cyfiawnder** - ymddygiad neu driniaeth gyfiawn.
**Cyfrifoldeb** - yr ymdeimlad o'r angen i wneud ein gorau dros eraill a byd natur.
**Cynaliadwyedd** - y benwisg mae rhai merched Mwslimaidd yn ei wisgo.
**Cynefin** - cartref naturiol holl greaduriaid a phlanhigion y byd.
**Datgoedwigo** - clirio tir coediog yn bwrpasol.
**Datgoedwigo** - dysgeidiaeth Hindŵaidd
**Dharma** - yr egwyddor o ‘ddyletswydd mewn Hindŵaeth
**Disbyddu** - defnyddio'r cyflenwad neu adnoddau yn llwyr.
**Eirioli** - argymell neu gefnogi'n gyhoeddus.
**Karma** - Yr egwyddor o achos ac effaith mewn Hindŵaeth
**Llygredd** - cyflwyno halogion i'r amgylchedd naturiol sy'n achosi newid niweidiol.
**Mynegiant** - y weithred o wneud ein meddyliau neu deimladau yn hysbys.
**Newid Hinsawdd** - newid tymor hir ym mhatrwm tymheredd a thywydd y byd.
**Newid yn yr hinsawdd** - newidiadau tymor hir mewn tymheredd a phatrymau tywydd.
**Polisi** - egwyddor neu ffordd o weithredu a fabwysiadwyd neu a gynigir gan sefydliad neu unigolyn.
**Proffwyd Muhammad** - y proffwyd olaf a’r pwysicaf yng nghrefydd Islam
**Qur’an** - llyfr sanctaidd crefydd Islam
**Rhywogaethau** - yr amrywiaeth o fywyd byd natur ar draws y byd.
**Stiward** - rhywun sy’n gofalu am rywbeth i rywun arall - y syniad ein bod yn gofalu am y ddaear er nad yw’n perthyn i ni.

**Stiwardiaeth** - y syniad o ofalu am rywbeth er mwyn ei drosglwyddo i eraill.
**Streic** - gwrthod gweithio, wedi ei drefnu gan gorff o weithwyr fel math o brotest, fel arfer mewn ymgais i ennill consesiwn neu gonsesiynau gan eu cyflogwr.
**Symudiad** - newid neu ddatblygiad.
**Tanwydd Ffosil** - ffynhonnell ynni a gwres sy'n cael ei losgi; e.e. glo, olew a nwy.
**Y Bwdha** - sylfaenydd crefydd Bwdhaeth
**Y Dalai Lama** - arweinydd Bwdhaeth Tibet
**Ynni Adnewyddol** - ynni sy'n cael ei greu gan ddefnyddio adnoddau sydd ddim yn darfod; e.e. haul, gwynt a llanw'r môr.
**Ôl troed carbon** - cyfanswm y nwyon tŷ gwydr (gan gynnwys carbon deuocsid a methan) sy'n cael ei gynhyrchu gan ein gweithredoedd.